**Cod Ymddygiad**

**Rhybudd cosb benodedig am beidio â mynychu'r ysgol**

**Gorffennaf 2025**

This document is also available in English

## 1. Sail a rhesymeg gyfreithiol

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon disgyblion yn yr ysgol yn ofyniad cyfreithiol ac yn hanfodol er mwyn i ddisgyblion wneud y mwyaf o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt.

Dan Adran 7 Deddf Addysg 1996, y rhiant/gofalwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei blentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg lawn amser effeithlon sy'n briodol ar gyfer oedran, gallu a doniau'r plentyn ac ar gyfer unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd gan y plentyn. Mae'n drosedd os bydd rhiant/gofalwr yn methu â sicrhau bod ei blentyn yn mynd i'r ysgol ac os nad yw'r absenoldeb wedi'i awdurdodi gan yr ysgol.

Mae adrannau 444A a 444B o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu y gellir ymdrin ag achosion penodol o absenoldeb heb awdurdod drwy rybudd cosb fel dewis arall yn lle erlyn dan Adran 444. Mae rhybudd cosb yn ddirwy o hyd at £120 a gellir ei roi i riant/gofalwr o ganlyniad i ddiffyg presenoldeb rheolaidd plentyn yn yr ysgol.

Rhaid i rybuddion cosb gydymffurfio â holl ofynion y Ddeddf Hawliau Dynol a deddfwriaeth cyfle cyfartal.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sydd â'r prif gyfrifoldeb am ddatblygu'r protocol y bydd yr holl bartneriaid a enwir yn Rheoliadau Addysg (Rhybuddion Cosb) (Cymru) 2013 yn gweithredu oddi mewn iddo a bydd y Gwasanaeth Gwaith

Cymdeithasol Addysg ("GGCA") yn cyflawni'r cyfrifoldeb ALI hwn ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Bydd GGCA Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn parhau i ymchwilio i achosion o bresenoldeb afreolaidd o'r ysgol ac yn dilyn ymholiadau priodol, yn cymryd camau cyfreithiol os yw'n briodol. Fodd bynnag, mae rhybuddion cosb yn cynnig dull o ymyrraeth gyflym y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei ddefnyddio i ymdrin â materion diffyg presenoldeb rheolaidd cyn iddynt ymwreiddio.

Bydd cyflwyno rhybuddion cosb yn seiliedig ar feini prawf trothwy clir y bydd angen eu defnyddio'n gyson ac yn deg ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Rhaid i unrhyw un sydd wedi'i awdurdodi i roi rhybudd ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn y cod ymddygiad hwn.

Cefnogir rhieni/gofalwyr a disgyblion ar lefel ysgol ac awdurdod lleol ("ALI") i oresgyn rhwystrau i bresenoldeb rheolaidd trwy ystod eang o strategaethau asesu ac ymyrryd. Dim ond pan fo cydweithrediad rhieni yn y broses hon naill ai'n absennol neu'n cael ei ystyried yn annigonol i ddatrys y broblem sy'n cyflwyno'i hun y dylid defnyddio sancsiynau o unrhyw fath.

Mae'r sancsiwn hwn yn fodd o orfodi presenoldeb lle mae disgwyliad rhesymol y bydd ei ddefnyddio yn sicrhau gwelliant.

## 2. Materion ymarferol cyfreithiol

2.1 Mae rhybudd cosb yn £60 os caiff ei dalu cyn pen 28 diwrnod o'i gael, ac yn codi i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod ond cyn pen 42 diwrnod o'i gael. Os na chaiff y gosb ei thalu'n llawn erbyn diwedd y 42 diwrnod rhaid i'r ALI **ystyried** naill ai erlyn am y drosedd neu dynnu'r rhybudd yn ôl.

2.2 Mae erlyniad o'r fath am y drosedd o fethu â sicrhau presenoldeb yn yr ysgol ac nid am beidio â thalu'r ddirwy. Fe'i dygir o dan adran 444 Ddeddf Addysg 1996.

2.3 Dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn fel y nodir yn y cod ymddygiad hwn y gellir tynnu rhybudd yn ôl.

## 3. Pwy all gyflwyno rhybudd cosb

3.1 Y swyddogion awdurdodedig yn y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg fydd yr unig rai sydd â hawl i gyflwyno llythyrau rhybuddio a'r Rhybuddion Cosb Benodedig ym Mwrdeistref Sirol Conwy, a fydd yn sicrhau darpariaeth gyson a theg a chaniatáu i ysgolion gynnal perthnasoedd da gyda rhieni a sicrhau eu bod yn ategu at unrhyw gosbau gorfodi eraill.

3.2 Mae gan y swyddogion awdurdodedig ddisgresiwn wrth benderfynu rhoi rhybudd cosb neu beidio; yr amgylchiadau penodol ym mhob achos unigol fydd yn pennu hynny.

3.3 Yn amodol ar baragraff 3.4 isod, gall swyddog ALI roi rhybudd cosb dim ond mewn perthynas â phlentyn:

(a) Sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol yn ardal yr awdurdod hwnnw;
(b) Y mae'r awdurdod hwnnw wedi gwneud trefniadau am ddarpariaeth addysg arall ar ei gyfer (boed hynny yn ardal yr awdurdod ai peidio); neu
(c) Nad yw, ar yr adeg pan roddir y rhybudd, yn ddisgybl cofrestredig mewn unrhyw ysgol (boed hynny oherwydd gwaharddiad parhaol neu fel arall) ond sy'n byw yn ardal yr awdurdod hwnnw.

3.4 Pan fydd ALI wedi llunio cytundeb ag ALI arall i swyddog o'r awdurdod arall roi rhybuddion cosb i blentyn y mae paragraff (a) neu (b) uchod yn berthnasol, gall swyddog o'r awdurdod arall hwnnw roi rhybudd cosb i'r plentyn. Pan fydd

plentyn yn byw yn ardal ALl cyfagos ond yn mynd i'r ysgol yng Nghonwy, Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fydd yn gyfrifol am roi unrhyw rybuddion cosb am beidio â mynychu'r ysgol.

## 4. <u>Pwy all gael rhybudd cosb</u>

4.1 Gall unrhyw riant/gofalwr plant o oedran ysgol gorfodol sydd wedi cofrestru mewn ysgol a gynhelir, Uned Cyfeirio Disgyblion a'r rhai sy'n mynychu darpariaeth amgen gael rhybudd cosb benodedig.

4.2 Fel gyda'r erlyniadau dan Adran 444 Deddf Addysg 1996, gellir rhoi rhybudd cosb i bob rhiant/gofalwr sy'n atebol am y drosedd neu droseddau.

4.3 At ddibenion deddfwriaeth addysg, nodir y diffiniad o riant/gofalwr yn Adran 576 Deddf Addysg 1996. Mae "rhiant" yn golygu pob rhiant/gofalwr naturiol, boed yn briod neu beidio; mae'n yn cynnwys unrhyw un, er nad ydynt yn rhieni naturiol, sydd â chyfrifoldeb rhiant (fel y diffinnir yn Neddf Plant 1989) am blentyn neu unigolyn ifanc ac unrhyw un, er nad ydynt yn rhiant naturiol, sy'n gofalu am blentyn neu unigolyn ifanc. Mae gofalu am blentyn neu unigolyn ifanc yn golygu bod rhywun sy'n byw gyda'r plentyn ac yn gofalu amdano, yn cael ei ystyried yn rhiant yn ôl y gyfraith addysg, beth bynnag yw ei berthynas â'r plentyn.

## 5. <u>Amgylchiadau dros roi rhybudd cosb benodedig</u>

5.1 Dim ond ar gyfer absenoldeb heb awdurdod y gellir rhoi rhybudd cosb.
Bydd y defnydd o rybuddion cosb yn cael ei gyfyngu i un rhybudd i riant/gofalwr pob disgybl bob tymor.

5.2 Mewn achosion lle mae presenoldeb mwy nag un disgybl o'r un teulu yn wael, gellir cyflwyno rhybuddion ar gyfer mwy nag un plentyn.

5.3. Gellir ystyried rhybuddion cosb yn briodol dan yr amgylchiadau canlynol:

- Methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd;
  Bydd hyn yn dod i rym pan fydd:

  (i) O leiaf 10 o sesiynau (5 diwrnod ysgol) wedi cael eu colli oherwydd absenoldeb heb awdurdod yn ystod y tymor cyfredol. Nid oes rhaid i'r rhain fod yn olynol; neu
  (ii) Absenoldeb heb awdurdod o 10 sesiwn o leiaf (5 diwrnod ysgol) oherwydd gwyliau yn ystod y tymor neu ddychwelyd yn hwyr o wyliau estynedig.

- Bod yn hwyr yn barhaus (sef ar ôl cofrestru a chreu absenoldeb anawdurdodedig). Mae "parhaus" yn golygu cyrraedd yn hwyr i 10 sesiwn o leiaf (5 diwrnod ysgol) yn ystod y tymor cyfredol.

5.4 O dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, mae'n ofynnol i ysgolion gymryd cofrestr ddwywaith y dydd; ar ddechrau cyfnod y bore, ac unwaith yn ystod cyfnod y prynhawn. Mae cywirdeb y gofrestr yn bwysig er mwyn cefnogi unrhyw ymyriadau statudol y gallai fod eu hangen, ac mae'n drosedd peidio cynnal cofrestrau cywir.

5.5 Gweler Atodiad 1 am enghreifftiau o pryd y gellid ystyried bod Rhybudd Cosb Benodedig yn briodol.

## 6. Gweithdrefn ar gyfer cyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig

6.1 Bydd Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mewn ymgynghoriad ag ysgolion, yn gyfrifol am benderfynu cyhoeddi rhybuddion cosb. Bydd hyn yn sicrhau:

- darpariaeth gyson
- cynnal perthynas rhwng ysgolion a rhieni/gofalwyr
- cydlynu â sancsiynau gorfodi eraill; a
- cydlynu rhwng asiantaethau.

6.2 Gall ysgolion, yr Heddlu ac ALl cyfagos ofyn am gyhoeddi rhybudd.Bydd Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymateb i bob cais i gyhoeddi rhybudd cosb cyn pen 10 diwrnod ysgol o'i dderbyn, gan gymryd bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i rhoi iddynt er mwyn gallu ystyried y cais yn iawn.

6.3 Pan fydd y meini prawf perthnasol ar gyfer Rhybudd Cosb Benodedig yn cael eu bodloni, mae'n bosibl y bydd Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn penderfynu cyhoeddi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol i'r rhiant/gofalwr yn dweud y bydd cosb benodedig yn cael ei rhoi os na fydd gwelliannau'n cael eu gwneud ar unwaith a'u cynnal ym mhresenoldeb y plentyn neu unigolyn ifanc yn yr ysgol. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y rhiant/gofalwr yn cael 15 diwrnod ysgol i wella'r sefyllfa cyn cyhoeddi rhybudd neu ddechrau achos yn eu herbyn. Penderfynir ar faterion o'r fath fesul achos unigol.

6.4 Dim ond pan fydd yr ysgol wedi darparu'r gwaith papur a'r dystiolaeth angenrheidiol y bydd Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystyried cyhoeddi Rhybudd. Dylai'r gwaith papur gynnwys:

(a) Copi o newyddlen yr ysgol neu lythyr a anfonwyd at yr holl rieni/gofalwyr yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol sy'n nodi'n glir y gall rhieni gael Rhybudd Cosb Benodedig am absenoldebau heb awdurdod, yn cynnwys Gwyliau yn ystod tymor yr ysgol, nad ydynt wedi'u hawdurdodi gan yr ysgol.

(b) Copi o'r Ffurflen Gais am Wyliau a gyflwynwyd gan riant/gofalwr, a chopi o'r ymateb a anfonwyd at y rhiant/ gofalwr gan yr ysgol. Os yw cais am wyliau'n

cael ei wrthod, rhaid i ymateb yr ysgol nodi'r rheswm pam a dylid hysbysu'r rhiant/gofalwr eto y gallant dderbyn Rhybudd Cosb Benodedig os ydynt yn penderfynu tynnu eu plentyn o’r ysgol;

(c) Copi o'r llythyr a anfonwyd gan yr ysgol at y rhiant/gofalwr yn rhoi gwybod bod yr ysgol wedi cyfeirio'r mater at yr Awdurdod Lleol i’w ystyried ac y bydd Rhybudd Cosb Benodedig yn cael ei gyflwyno o bosibl;

(d) Tystysgrif presenoldeb neu gofrestru’r disgybl;

(e) Tystysgrif wedi’i llofnodi gan y Pennaeth neu ei ddirprwy dynodedig yn cadarnhau bod yr absenoldeb yn ystod y cyfnod yn un heb awdurdod;

6.5 Ni fydd rhybudd cosb yn cael ei gyflwyno ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal sy’n destun ymyrraeth bresennol gan yr ALl.

6.6 Anfonir rhybuddion cosb drwy’r post; ystyrir bod y gwasanaeth wedi’i ddosbarthu ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl postio’r llythyr, os na ellir profi i’r gwrthwyneb. Mae “diwrnod gwaith” yn golygu unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy’n ŵyl y banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971.

## 7. <u>Talu rhybudd cosb</u>

7.1 Bydd manylion y trefniadau talu ar y rhybudd cosb.

7.2 Mae talu rhybudd yn rhyddhau atebolrwydd y rhiant/gofalwr am y cyfnod dan sylw ac ni ellir eu herlyn o dan bwerau gorfodi eraill wedi hynny am y cyfnod a nodir yn y rhybudd.

7.3 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cadw unrhyw refeniw o unrhyw rybudd cosb i dalu costau gorfodi. Mae'n annhebygol y bydd refeniw yn fwy na chostau

gorfodi. Fodd bynnag, rhaid ildio unrhyw arian dros ben i Gronfa Gyfunol Cymru.

## 8. Peidio â thalu rhybudd cosb

**Mae'n bosibl** y bydd peidio â thalu rhybudd cosb yn sbarduno gweithdrefnau erlyn a ddygir o dan adran 444 Deddf Addysg 1996 **ond bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos unigol.**

## 9. Tynnu rhybudd cosb yn ôl

9.1 Nid oes unrhyw hawl statudol i apelio yn erbyn cael rhybudd cosb. Unwaith y caiff rhybudd ei roi, dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dynnu hysbysiad cosb yn ôl:

(i) os gellir sefydlu tystiolaeth bod y rhybudd cosb wedi cael ei gyhoeddi i rywun anghywir;
(ii) ni ddylai'r rhybudd fod wedi'i gyhoeddi, h.y. pan fo wedi'i gyhoeddi y tu allan i delerau'r cod ymddygiad hwn neu nad oes trosedd wedi'i chyflawni; neu
(iii) ymddengys i'r ALI bod gan y rhybudd wallau materol.

9.2 Pan fo hysbysiad cosb wedi'i dynnu'n ôl yn unol â'r uchod, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r derbynnydd a bydd unrhyw swm a dalwyd fel cosb yn unol â'r hysbysiad hwnnw yn cael ei ad-dalu i'r unigolyn a dalodd y swm.

9.3 Ni pharheir ag unrhyw achos yn erbyn y derbynnydd am y drosedd mewn cysylltiad â diddymiad yr hysbysiad a gyflwynwyd am drosedd o dan adran 444(1A) Deddf Addysg 1996 yn deillio o'r un amgylchiadau.

9.4 Rhaid tynnu rhybudd cosb yn ôl pan na fydd wedi'i dalu'n llawn cyn i'r cyfnod talu ddod i ben (h.y. cyn pen 42 diwrnod o dderbyn y rhybudd) ac os nad yw'r

ALL un ai wedi dechrau achos yn erbyn y derbynnydd am y drosedd y mae'r rhybudd yn ymwneud â hi, nac yn ystyried achos o'r fath.

## 10. Polisi a chyhoeddusrwydd

10.1 Dylai holl bolisïau presenoldeb yr ysgol gynnwys gwybodaeth am roi Rhybuddion Cosb. Dylid tynnu sylw rhieni/gofalwyr at hyn.

## 11. Cydraddoldeb a'r Gymraeg

11.1 Mae'n rhaid i'r broses o gyflwyno Rhybuddion Cosb Benodedig gydymffurfio â deddfwriaethau a rheoliadau perthnasol eraill, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn deg a chyson ac y rhoddir sylw dyledus i amgylchiadau'r plentyn / plant a'r teuluoedd dan sylw. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Hawliau Dynol 1998

11.2 Mae Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymdrin â'r ystod lawn o faterion sydd angen eu hystyried, yn dibynnu ar yr achos unigol.

## 12. Adolygiad blynyddol, adrodd a chadw cofnodion

12.1 Bydd Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn monitro, cofnodi a gwerthuso effeithiolrwydd Rhybuddion Cosb Benodedig bob blwyddyn. Bydd data ar gael i Lywodraeth Cymru hefyd ar gais.

12.2 Bydd y cod ymddygiad hwn yn cael ei adolygu gan Wasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bob blwyddyn ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei addasu yn dibynnu ar ganlyniad gwaith y flwyddyn flaenorol.

12.3 Bydd Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfrifol am gynnal cofnodion rhybuddion cosb yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, fydd yn cynnwys:

(a) copi o bob rhybudd a gyhoeddwyd;
(b) cofnod o'r holl daliadau a wnaed ac ar ba ddyddiadau;
(c) os cafodd y rhybudd ei dynnu'n ôl ac ar ba sail; ac
(d) os cafodd y derbynnydd ei erlyn am y drosedd y cafodd y rhybudd ei gyhoeddi yn ei chylch (neu os oedd y rhybudd yn ymwneud â throsedd dan isadran (1) adran 444 Deddf Addysg 1996 am drosedd dan isadran (1A) yn codi o'r un amgylchiadau).

## 13. Sut i gael mwy o wybodaeth

13.1 Mae rhagor o wybodaeth am weithrediad y cod ymddygiad hwn a rhybuddion cosb yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gael gan:

Y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg
Y Gwasanaethau Addysg, Effeithlonrwydd Ysgolion

Coed Pella
Conway Road
Bae Colwyn
CONWY
LL29 7AZ

Rhif Ffôn: (01492) 575031
E-bost: **GCA@conwy.gov.uk**

13.2 Mae gwybodaeth gyffredinol am rybuddion cosb am beidio â mynychu'r ysgol ar gael yn Rheoliadau Addysg (Rhybuddion Cosb)(Cymru) 2013 a dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru 'Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd - 116/2013'.

**Atodiad 1**

**ENGHREIFFTIAU PAN YSTYRIR RHYBUDD COSB**

Dim ond mewn achosion o absenoldeb heb awdurdod pan fo'r meini prawf yn 5.3 uchod wedi'u sefydlu y gellir cyhoeddi rhybudd cosb.

**Dim ond ar gyfer troseddau ble mae'r ALI yn gallu ac yn barod i erlyn y dylid cyhoeddi rhybuddion. Dylai'r ALI fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i ddangos bod y rhiant/gofalwr wedi cyflawni trosedd dan adran 444(1) Deddf Addysg 1996.**

Dylai Awdurdodau Lleol ac ysgolion ystyried pob disgybl ac achos fesul un ac asesu faint o gefnogaeth ac ymyrraeth sydd ei angen cyn penderfynu ar y strategaeth fwyaf addas ar gyfer gwella presenoldeb disgybl unigol.

Dyma enghreifftiau o achosion ble gellid rhoi rhybudd cosb. Er nad yw'n rhestr gyflawn o enghreifftiau, gallai fod yn briodol rhoi rhybudd yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- Pan fydd plentyn wedi cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg ac mae'r gwaith achos ar y gweill, ond nid yw'r rhieni/gofalwyr yn cefnogi ymdrechion yr ysgol a'r Gwasanaeth i wella presenoldeb ac nid oes unrhyw sancsiynau cyfreithiol eraill ar y gweill.

- Pan fydd rhieni/ gofalwyr yn methu'n barhaus i sicrhau bod eu plentyn yn mynd i'r ysgol, a phan fo patrwm o absenoldeb heb awdurdod am gyfnod a ddynodwyd heb reswm derbyniol ac nid oes unrhyw sancsiynau cyfreithiol eraill ar y gweill.

- Pan fydd patrwm o absenoldeb heb awdurdod am gyfnod penodol heb gyfiawnhad ac na fyddai erlyn y rhieni am ddiffyg presenoldeb dan adran 444 Deddf Addysg 1996 er budd y cyhoedd.

- Pan fydd rhieni/gofalwyr yn gwrthod llofnodi contract yn cynnig cefnogaeth ac mae presenoldeb yn is na'r hyn sy'n dderbyniol dros gyfnod penodol heb gyfiawnhad rhesymol.

- Pan fydd gwyliau'n cael ei gymryd heb gytuno gyda'r ysgol neu heb roi gwybod i'r ysgol ac mae'r rhieni/gofalwyr wedi cael rhybudd y gallai hyn arwain at rybudd cosb benodedig.

- Pan fydd disgybl yn hwyr yn barhaus ac yn cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau.

- Pan fydd plentyn yn dod i sylw'r Heddlu'n rheolaidd yn ystod oriau ysgol am fod yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol.

- Disgyblion sy'n cael eu canfod yn ystod mentrau chwilio am blant sy'n triwanta (dim ond pan fydd y ffeithiau'n hysbys yn barod y bydd hyn yn bosibl e.e. pan fydd gan blentyn hanes o absenoldeb parhaus) os nad oes rheswm y mae modd ei gyfiawnhau am fod yn absennol o'r ysgol.